Cynllunwyr Iaith Cymru

y fforwm proffesiynol ar gyfer cynllunwyr iaith yng Nghymru

Seminar: Sut mae Dehongli'r Cyfrifiad?

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth.
9.45a.m. - 1.00p.m., Dydd Gwener , 14 Rhagfyr 2012.

Trafodion

Gareth Ioan, Prif Weithredwr IAITH: y ganolfan cynllunio iaith

Rhannodd Gareth Ioan wybodaeth am y manylion ystadegol a rannwyd ar 11 Rhagfyr 2012 ac a fydd yn cael ei rannu ar 30 Ionawr 2013. Dangoswyd cyfweliad fideo gyda Meirion Prys Jones, o wefan y BBC, gyda Meirion yn darogan rhai canlyniadau.

Nodwyd y pwyntiau yma o'r canlyniadau yng nghyswllt awdurdodau lleol:

- % wedi syrthio ymhob man ar wahân i Gaerffili, Sir Fynwy a Caerdydd
- Niferoedd wedi syrthio ymhob man ar wahân i Fro Morgannwg, Sir Fynwy a Chaerdydd
- Nifer uchaf yn parhau yn Sir Gaerfyrddin
- Y ganran uchaf yn parhau yng Ngwynedd
- Ffactorau allweddol posibl:
    - Symudoledd – mewn ac allan
    - Gor-amcanu sgiliau ieuenctid yn 2011?
    - Colli poblogaeth naturiol

O ran iaith ac oedrannau nodwyd:

- Cynnydd yng nghyfran y plant 3-4 oed a nodwyd oedd yn siarad Cymraeg.
- Ymddengys fod y system addysg yn parhau i gynhyrchu siaradwyr.
- Oedolion ifanc yn dal eu tir.
- Oedrannau hŷn yn gostwng o ran nifer a chanran.
- Pa siâp y pyramid iaith? Ymddengys yn gadarnhaol.

Codwyd y materion canlynol i sylw'r cyfarfod fel pwyntiau trafod:

- Sut mae diffinio 'siarad Cymraeg' p'run bynnag?
- Pa mor galed yw'r data mewn gwirionedd? Onid yw'n oddrychol? Faint o oddefiad sydd yna o ddegawd i ddegawd? Ceir amrywiaeth rhwng canrannau'r Cyfrifiad ac arolygon barn achlysurol.
- A oedd Cyfrifiad 2001 yn gamarweiniol?

- Yr angen i edrych ar rwydweithiau, peuoedd a phatrymau defnydd yn ogystal â dadansoddiad gofodol.
- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Oes digon o wybodaeth gan gynllunwyr iaith?
- Sut mae dadlau dros mwy o adnoddau mewn cyfnod o gyni?



I gloi, dadleuodd Gareth Ioan nad oedd y canlyniad yn rhyfeddol o syfrdanol i'r neb sy'n diddori yn y maes a'i fod yn amrywiad ystadegol digon derbyniol yng nghyd-destun amserlen cynllunio iaith hir dymor y Gymraeg. Pwysleisiodd fod ffactorau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eithriadol yn gwasgu ar siaradwyr y Gymraeg, eu defnydd ohoni a chynaladwyedd y sefyllfa. Y rhyfeddod yw fod y ffigyrau cystal yn wyneb anferthedd yr heriau.

Nil desperandum yw'r arwyddair, meddai. Mae llawer i gynnal hyder yn y canlyniadau – yn ogystal â'r un hen heriau. Mynd at ein gwaith yw'n tasg.

Yr Athro Rhys Jones, Sefydliad Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth

- Hunaniaeth genedlaethol – 66% o'r boblogaeth yn arddel hunaniaeth Gymraeg. Cwestiynodd Rhys Jones y cysylltiad rhwng hunaniaeth genedlaethol a sgiliau iaith. Roedd canlyniadau'r cyfrifiadur yn awgrymu nad oedd cyswllt. Yng Ngwynedd a Cheredigion roedd 38% a 47% ddim yn teimlo hunaniaeth Gymreig. Go brin y byddai'r rheini yn dymuno mynd ati i ymwneud â'r Gymraeg.
- Mae yna her gynyddol i'r fro Gymraeg draddodiadol, e.e. Dwyrain Sir Gaerfyrddin. Mae angen edrych yn fanwl a chwestiynu patrymau iaith ar lefel lleol yn ogystal â sir.
- Angen ystyried effaith mudoledd poblogaeth:
    - Allfudo wedi golygu colli rhwng 1,200-2,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn i Loegr a thu hwnt. Beth yw'r gefnogaeth sydd angen i gadw'r bobl yma?
    - Mewnfudo – 27% yn y Cyfrifiad yn nodi iddynt gael eu geni y tu allan i Gymru. Oes yna bolisi credadwy i'w croesawu a'u hintegreiddio? Oes angen mwy o ymdrech i gymhathu mewn ddyfodiaid?
- I ba raddau mae'n bosib ystyried y 3 ardal lle bu cynnydd yn y Gymraeg fel y bröydd Cymraeg newydd?
- Mae yna wendidau yn y Cyfrifiad fel ffordd o gasglu data gan ei fod yn rhywbeth statig. Mae angen cydnabod symudolrwydd e.e. bod pobl yn gweithio a chymdeithasu y tu allan i'r ardal maent yn byw. Mae bywyd wedi mynd yn rhywbeth mwy llifol/symudol ac nid yw'r Cyfrifiad yn medru cyfleu hyn.
- Defnydd iaith yn ddibynnol ar ymddygiad unigolion ac mae yna wahanol bethau yn medru effeithio'r ymddygiad yma. Cael dylanwad llawn ar y ffactorau yma yn her anferth.

Elin Royles, Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth

- Goblygiadau y cyd destun gwleidyddol:
  - Newidiadau demograffig i'w hystyried e.e. allfudo, mewnfudo a sgiliau.
  - Rhagdybiaeth yw beio'r mewnlifiad am y newidiadau. Mae angen ystyried y berthynas rhwng gwahanol agweddau.
- Y Cyfrifiad:
  - Degawd yn gymhariaeth rhy fyr. Mae angen ystyried rhoi sgôp mwy o flynyddoedd hirdymor gan alluogi edrych ar dueddiadau ehangach a sefydlu ystod o astudiaethau ehangach i edrych ar sefyllfa'r Gymraeg.
- Iaith fyw: Iaith Byw:
  - Beth yw pwerau Llywodraeth Cymru? Ydy'r strategaeth iaith wir yn mynd i afael â'r materion craidd?
  - Mae angen defnyddio gwybodaeth i greu arfau i wella'r sefyllfa.
- Mesur Iaith:
  - Mae'r mesur yn rhoi statws swyddogol i'r iaith ond a ydi'r ddeddf yn ddigon?
  - Y Safon Hybu yw'r safon allweddol.
- Mesur effaith:
  - Her a phroblem sylfaenol gweithredu polisi yw sut i asesu effeithiolrwydd beth sy'n digwydd.
- Prif-ffrydio:
  - Mae dadl gref dros yr angen i brif ffrydio, gan integreiddio'r Gymraeg i bob maes polisi. Wrth gwrs wrth wneud hyn mae perygl i'r Gymraeg gael ei cholli. Gwerth arall i brif ffrydio gyda pob math o feysydd yn gweld gwerth y Gymraeg.
  - Lefel ymwybyddiaeth iaith yn isel o fewn y llywodraeth ac awdurdodau lleol.
- Awdurdodau lleol:
  - A ydi'r nifer o awdurdodau lleol yn niweidiol?
  - Ceir esiamplau o anghysondebau, megis rhwng Gwynedd a Môn.
  - Beth yw'r capasiti cynllunio iaith yn y cyd-destun yma?
  - Mae gwasgedd economaidd, cyfyngu ar gyllidebau ac adnoddau yn effeithio ar y sector gyhoeddus.
- Consensws:
  - Cyfeiriodd at ddyfyniad Leighton Andrews sy'n rhoi pwyslais ar gonsensws gwleidyddol. Ond pa mor gryf yw'r consensws yma pan nad yw'r Gymraeg yn ran o wleidyddiaeth bleidiol o ddydd i ddydd?
- Ymchwil:
  - Nid yw sylfaeni 'deall' yn ddigon cadarn i lywio polisi yn effeithiol – y sut a'r pam. Mae angen mwy o ymchwil?

Dr Kathryn Jones, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil, IAITH – **Nodiadau ar gyflwyniad Kathryn i ddod.**

Trafodaeth o'r llawr

Sylwadau gan **Toni Schiavone**:

- Mae'r llywodraeth wedi methu a cydnabod bod y Gymraeg mewn sefyllfa argyfyngus. Er ei fod yn derbyn y sylwadau cadarnhaol mae angen ymateb clir a chadarn i'r polisïau ynglŷn a chynllunio ac economi. Does dim modd aros am y dadansoddiad academaidd deallusol.

Ymatebodd **Dr Elin Royles** trwy ddweud: Mae'n beryglus dweud bod polisïau llywodraeth wedi methu. Efallai y dylid dweud nad ydynt wedi gweithio, a thrafod sut mae gwneud yn well. Mae angen newid y drafodaeth wleidyddol i osod y cyd-destun ehangach er mwyn trafod y problemau go iawn.

Sylwadau gan **Cynog Dafis**:

- Y dylid ymwrthod bellach â'r term 'ardaloedd traddodiadol'. Bod angen torri'n rhydd o'r syniad bod rhai llefydd lle mae disgwyl medru siarad Cymraeg a rhai ardaloedd lle nad yw'r disgwyliad yno. Mae hyn yn gysyniad peryglus. Mae angen gweld y Gymraeg fel iaith genedlaethol sy'n medru ffynnu ym mhob ardal.
- Gocheler: mae yna wrthddweud rhwng y disgwrs sy'n sôn am integreiddio'r Gymraeg i bob maes polisi a'r syniad o fuddsoddi mewn meysydd penodol, e.e. addysg Gymraeg a hyfforddi athrawon.
- Un blaenoriaeth pwysig yw atal allfudo Cymry Cymraeg – atal y gwaedlif.
- Gallwch chi ddim creu cyffro ieithyddol drwy feddylfryd o 'warchod'.

Ymatebodd **Dr Kathryn Jones** trwy ddweud: mae methodoleg mesur ieithyddol yn bodoli ond mae angen ei ystyried yn fwy gofalus. Mewn egwyddor maen nhw'n bwysig ond yn anodd iawn ei weithredu. Mae mor allweddol cyplysu'r Gymraeg â bwrlwm. Mae'r ieithoedd sy'n goresgyn yn ystwyth ac yn medru symud. Maent yn bodoli yn y prif feysydd, lle mae cyfalaf. Mae angen i'r Gymraeg fod yn werthfawr ac o werth i bawb.

Yng nghyswllt ieuenctid yn allfudo i dderbyn addysg uwch, ymatebodd **Yr Athro Rhys Jones** trwy ddweud: mae rhaid bod yn ymwybodol o'r profiad a'r teimladau o eisiau dianc sydd yn naturiol i bobl ifanc. Mae gadael ardal am ardal newydd yn gallu creu profiadau ac mae yna bobl sydd eisiau gweld y golau llachar. Ydi, mae hon yn broblem yn y bröydd Cymraeg, ond mae angen edrych ar y sefyllfa mewn ardaloedd eraill hefyd.

Sylwadau gan **Euros Lewis**:

- Fel arweinydd yn y maes drama, dwi wedi cael y profiad o adael ac wedi cael profiadau mawr. Ond dwi wedi dod yn ôl er mwyn cyfrannu at rhywbeth. Mae angen rhoi rheswm i bobl ddychwelyd.
- Mae angen hyder i ddefnyddio'r Gymraeg – mae angen medru bod yn hyderus yn y Fro Gymraeg i gynnal bywyd Cymraeg y ddiwylliannol ac yn economaidd.

Ymatebodd **Dr Elin Royles** trwy ddweud: Mae angen gwahaniaethu rhwng lle mae blaenoriaethu y Gymraeg yn realistig a'r lle nad yw hynny yn hollol bosib. Mae angen cydnabod esiampl Gwynedd.

Sylwadau gan **Sel Williams**:

- Seicoleg yn greiddiol yma, ynghyd ag ymagwedd at iaith a hunaniaeth. Gellir edrych ar y sefyllfa yn fwy calonogol gan fod 66% yn ystyried eu hunain yn Gymry o ran

hunaniaeth. Mae angen meddwl am sut i bontio rhwng hunaniaeth Gymraeg a hunaniaeth Gymreig. Yr her fawr yw dod â'r ddau at ei gilydd.

Sylwadau gan **Robin Farrar**:

- Ble mae'r grym yn cael ei leoli? Yng Nghaerdydd. Mae angen gweithredu mwy radical o fewn cymdeithasau a chymdogaethau ac mae angen y drafodaeth ar lawr gwlad - trafodaeth ar beth yw natur cymdeithas leol o ran cyfleoedd, gwaith ac economi.
- Er ein bod yn dibynnu ar y llywodraeth mae angen i'r cyfrifoldeb fod ar lefel leol hefyd. O fewn y cymunedau gallwn greu momentwm a chymryd y penderfyniadau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Sylw gan **Euros Lewis**:

- Mae angen buddsoddiad anferthol mewn addysg anffurfiol er mwyn grymuso ein cymdogaethau Cymraeg yn y gogledd a'r gorllewin.

Trafodaeth lwyfan: Sut ddylai'r proffesiwn ymateb i'r canlyniadau?

- Cael eu harfogi yn well.
- Mynnu mwy o ymchwil.
- Edrych ar sut mae datblygu polisïau effeithiol.
- Tynnu ar brofiad gwledydd eraill.
- Adeiladu arbenigedd yn y maes cynllunio iaith.
- Cynnal sgyrsiau gydag arbenigwyr mewn meysydd eraill er mwyn prif ffrydio cysyniadau.
- Sicrhau mwy o gyfleoedd i rannu gwybodaeth a chyfleoedd i siarad.
- Newid y pwyslais o drafod polisi iaith Gymraeg i'r iaith Gymraeg mewn polisi.
- Mae angen cynnwys y Gymraeg mewn diffiniadau am 'gynaladwyedd' – dydyn ni ddim wedi manteisio digon ar hyn yng Nghymru eto.
- Mae'n bwysig cyplysu economi, gwaith, iaith ac ati. Dyna'r ffordd i gynllunio yn gynaliadwy. Mae hefyd yn gyfrwng i ddod a sawl math o berson at ei gilydd gan ehangu ystod caredigion yr iaith.
- Cysyniad cyfredol arall cynyddol bwysig yw 'gwytnwch'. Rhaid meddwl yn fwy holistig gan feddwl am ehangu a thyfu yn hytrach na gwarchod ac amddiffyn.

Siwan Tomos
IAITH: y ganolfan cynllunio iaith
Ionawr 2013